Llywodraeth Cymru
Welsh Government

LLYWODRAETH CYMRU

# Cyllideb Atodol

2023-2024

## Nodyn Esboniadol

Chwefror 2024

llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG49403, ISBN digidol 978-1-83577-667-4
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

## Cynnwys

1. Cyflwyniad 2

2. Dyraniadau Allweddol 3

3. Newidiadau i Gyllideb Cymru ers y Gyllideb Atodol Gyntaf 2023-24 5

4. Trosglwyddiadau rhwng Portffolios y Gweinidogion 15

5. Trosglwyddiadau o fewn Portffolios y Gweinidogion 17

6. Newidiadau i Gronfeydd Wrth Gefn 19

7. Cyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) 34

34

Atodiad 1 – Cysoni rhwng Cyllidebau'r Portffolios yn Nhablau'r Camau Gweithredu a'r rhai yng Nghynnig y Gyllideb 37

Atodiad 2 – Geirfa 39

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am gynnwys y ddogfen hon cysylltwch â: wag-en@mailuk.custhelp.com

## 1. Cyflwyniad

**1.1** Heddiw, cyflwynodd Llywodraeth Cymru'r ail gyllideb atodol ar gyfer 2023-24, yn unol â Rheol Sefydlog 20. Mae'r gyllideb atodol hon yn cynnig newidiadau i'r Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2023-24 fel y'i cymeradwywyd gan Senedd Cymru ('y Senedd') ar 4 Gorffennaf 2023.

**1.2** Mae'r gyllideb atodol hon yn rheoleiddio dyraniadau i gronfeydd wrth gefn ac oddi wrthynt, a throsglwyddiadau o fewn a rhwng portffolios. Mae hefyd yn cynnwys addasiadau i gyllideb Cymru i adlewyrchu effaith digwyddiadau cyllidol Llywodraeth y DU.

**1.3** Ceir crynodeb o'r newidiadau a gynigir yn y gyllideb hon yn y penodau canlynol.

**1.4** Mae'r ddogfen hon yn ategu 'Tablau Llinell Wariant y Gyllideb (BEL)' sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

## 2. Dyraniadau Allweddol

**2.1** Mae'r Gyllideb Atodol hon yn cynnwys dwy brif set o newidiadau – y rhai a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar 17 Hydref 2023 a rhai dyraniadau a newidiadau ychwanegol a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol 2023-24.

**2.2** Yn dilyn y newidiadau a gyhoeddwyd ym mis Hydref, cafodd atodiad wedi'i ddiweddaru i Asesiad Effaith Integredig Strategol Llywodraeth Cymru ei gyhoeddi.

### Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**2.3** Ym mis Hydref, dyrannwyd **£425m** i'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyda manylion pellach yn cael eu nodi yn natganiad y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 8 Tachwedd.

**2.4** Mae swm ychwanegol o **£59m** wedi'i ddyrannu yn y gyllideb atodol hon i adlewyrchu'r diffyg a ragwelir yn achos y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn ôl y rhagolygon presennol gan gyrff y GIG, er bod gwelliannau sylweddol, gyda phedwar o'r saith Bwrdd Iechyd Lleol yn rhagweld y byddant yn bodloni eu diffygion targed, bydd y lleill yn methu â chyrraedd y targedau a bennwyd ym mis Tachwedd. Mae eu sefyllfa wedi cael ei gwrthbwyso'n rhannol gan gyfleoedd ac arbedion pellach a nodwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o fewn ei phortffolio. Gwneir y dyraniad hwn unwaith ar sail un tro ac fe gaiff ei ddal o fewn yr MEG yn hytrach na chael ei ddyrannu i sefydliadau nad ydynt yn bodloni diffygion targed.

**2.5** Mae dyraniad o **£95m** wedi'i reoleiddio yn y gyllideb hon mewn perthynas ag elfen Taliad Adfer ôl-ddyddiedig y cynnig cyflog a wnaed i staff Agenda ar gyfer Newid ar 20 Ebrill 2023.

**2.6** Mae cyfalaf gwerth **£10m** wedi'i ddarparu i gefnogi ystod o offer a cheisiadau digidol ar draws y gwahanol Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau.

## Newid Hinsawdd

**2.7** Mae'r gyllideb hon yn rheoleiddio dyraniad refeniw o **£82m** i'r MEG Newid Hinsawdd i gefnogi darparu £125m yn ychwanegol i Drafnidiaeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Hydref wrth iddi barhau i reoli costau uwch.

**2.8** Mae dyraniad cyfalaf o **£34m** i gefnogi Llinell Graidd y Cymoedd a **£15m** i gefnogi gwaith cynnal a chadw a gwaith cyfalaf arall ar ffyrdd a strwythurau o fewn rhwydwaith cefnffyrdd Cymru hefyd yn cael ei wneud yn y gyllideb atodol hon.

## Y Gymraeg ac Addysg

**2.9** Mae dyraniad cyfalaf o **£12.56m** wedi'i wneud i MEG y Gymraeg ac Addysg i fynd i'r afael â gwaith lliniaru dros dro Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth (RAAC) mewn pum ysgol a thri choleg ac i fynd i'r afael â'r gwaith cynnal a chadw cyfalaf a'r pwysau iechyd a diogelwch cysylltiedig ar draws ysgolion a cholegau yng Nghymru. Bydd y cyllid yn helpu i reoli pwysau ariannol ar Sefydliadau Addysg Bellach Awdurdodau Lleol a bydd yn cael effaith gadarnhaol ar gyllidebau ysgolion a cholegau.

## 3. Newidiadau i Gyllideb Cymru ers y Gyllideb Atodol Gyntaf 2023-24

**3.1** Mae tablau 3.1 i 3.4 isod nodir effaith net yr holl newidiadau i gyllideb Cymru. Mae tabl 3.5 yn crynhoi cyfanswm y dyraniadau yn ôl MEG.

## Tabl 3.1 – Ffynonellau Cyllid Llywodraeth Cymru

| ELFENNAU CYLLIDO LLYWODRAETH CYMRU | Cyllideb Atodol 2023-24 Mehefin 2023 | Newidiad-au | Cyllideb Atodol 2023-24 Cynlluniau Newydd Chwefror 2024 |
|---|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| **CYLLIDO ADNODDAU** | | | |
| **Terfyn Gwariant Adrannol (DEL):** | | | |
| Cyllidol | 15,988,285 | 464,988 | 16,453,273 |
| Anghyllidol | 1,803,254 | -606,423 | 1,196,831 |
| Tynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru | 65,962 | 199,094 | 265,056 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME):** | | | |
| Cyllidol | 24,546 | 6,434 | 30,980 |
| Anghyllidol | -253,870 | 956,572 | 702,702 |
| **Cyllido a Ddatganolwyd i Gymru:** | | | |
| Ardrethi Annomestig | 906,000 | 0 | 906,000 |
| Cyfraddau Treth Incwm Cymru [Nodyn] | 2,765,500 | 0 | 2,765,500 |
| Y Dreth Trafodiadau Tir | 312,344 | 0 | 312,344 |
| Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | 40,802 | 0 | 40,802 |
| Ad-dalu prifswm benthyca | -4,454 | 0 | -4,454 |
| **CYFANSWM CYLLIDO ADNODDAU** | **21,648,369** | **1,020,665** | **22,669,034** |
| **CYLLIDO CYFALAF** | | | |
| **Terfyn Gwariant Adrannol (DEL):** | | | |
| Cyffredinol | 3,053,899 | -21,937 | 3,031,962 |
| Tynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru | 0 | 47,230 | 47,230 |
| Trafodiadau Ariannol | 92,762 | -5,500 | 87,262 |
| Tynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru | 0 | 37,420 | 37,420 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME):** | | | |
| Cyfalaf | 1,386,950 | -21,766 | 1,365,184 |
| **Cyllido a Ddatganolwyd i Gymru:** | | | |
| Benthyca | 150,000 | 0 | 150,000 |
| **CYFANSWM CYLLIDO CYFALAF** | **4,683,611** | **35,447** | **4,719,058** |
| **CYFANSWM CYLLIDO CYMRU** | **26,331,980** | **1,056,112** | **27,388,092** |

Nodyn

Yn cynnwys swm cysoni ar gyfer alldro 2021-22 yn 2023-24

## Tabl 3.2 – Dyrannu Cyllideb Cymru

| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs) | | £000oedd | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Cyllideb Atodol 2023-24 Mehefin 2023** | **Newidiadau** | **Cyllideb Atodol 2023-24 Cynlluniau Newydd Chwefror 2024** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | | 11,131,935 | 766,780 | 11,898,715 |
| Cyllid a Llywodraeth Leol | | 6,086,118 | -19,059 | 6,067,059 |
| Y Gymraeg ac Addysg | | 3,471,020 | 120,417 | 3,591,437 |
| Newid Hinsawdd | | 3,336,898 | 434,536 | 3,771,434 |
| Yr Economi | | 595,146 | -23,508 | 571,638 |
| Materion Gwledig | | 447,684 | -40,450 | 407,234 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | | 181,032 | 7,798 | 188,830 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | | 365,650 | -16,520 | 349,130 |
| **Cyfanswm y Dyraniad i MEGs Llywodraeth Cymru** | | **25,615,483** | **1,229,994** | **26,845,477** |
| Adnoddau heb eu Dyrannu | Adnoddau Cyllidol | 60,095 | 124,690 | 184,785 |
| | Adnoddau Anghyllidol | 661,975 | -465,962 | 196,013 |
| | Cyfalaf Cyffredinol | -61,047 | 131,778 | 70,731 |
| | Trafodiadau Ariannol | -28,335 | 35,552 | 7,217 |
| Comisiwn y Senedd | | 67,208 | 0 | 67,208 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Nodyn 1 | | 5,963 | -108 | 5,855 |
| Swyddfa Archwilio Cymru Nodyn 2 | | 8,452 | 94 | 8,546 |
| Y Comisiwn Etholiadol Nodyn 3 | | 1,414 | 54 | 1,468 |
| Taliadau a Godir yn Uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | | 772 | 20 | 792 |
| **CYFANSWM CYLLIDEB CYMRU** | | **26,331,980** | **1,056,112** | **27,388,092** |

**Nodiadau**

1. Cafodd cyllideb atodol ar gyfer 2023-24 ei chyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ym mis Ionawr 2024. Adroddodd am ostyngiad o £108k yn ei adnodd cyllidol

2. Cafodd cyllideb atodol ar gyfer 2023-24 ei chyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid gan Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Mehefin 2023. Adroddodd am gynnydd o £94k yn ei chyfalaf cyffredinol.

3. Cyflwynwyd amcangyfrif atodol ar gyfer 2023-24 gan y Comisiwn Etholiadol i Bwyllgor y Llywydd ym mis Medi 2023. Adroddodd am gynnydd o £54k yn ei adnoddau cyllidol.

## Tabl 3.3 – Newidiadau i Ddyraniadau MEG Adnoddau Llywodraeth Cymru

| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs) | £000oedd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | CYLLIDOL | | | ANGHYLLIDOL | | |
| | Cyllideb Atodol 2023-24 Mehefin 2023 | Newidiadau | Cyllideb Atodol 2023-24 Cynlluniau Newydd Chwefror 2024 | Cyllideb Atodol 2023-24 Mehefin 2023 | Newidiad -au | Cyllideb Atodol Gyntaf 2023-24 Cynlluniau Newydd Chwefror 2024 |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 10,129,185 | 614,790 | 10,743,975 | 303,359 | 11,170 | 314,529 |
| Cyllid a Llywodraeth Leol | 4,900,216 | -47,537 | 4,852,679 | 545 | 58 | 603 |
| Y Gymraeg ac Addysg | 1,816,743 | -58,242 | 1,758,501 | 491,837 | -261,929 | 229,908 |
| Newid Hinsawdd | 899,605 | 91,403 | 991,008 | 292,575 | 109,837 | 402,412 |
| Yr Economi | 440,129 | -27,521 | 412,608 | 17,234 | 3,429 | 20,663 |
| Materion Gwledig | 376,667 | -17,250 | 359,417 | 10,817 | -3,000 | 7,817 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 139,237 | 303 | 139,540 | 255 | -26 | 229 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 331,449 | -16,520 | 314,929 | 18,604 | 0 | 18,604 |
| **Cyfanswm y Dyraniad i MEGs Llywodraeth Cymru** | **19,033,231** | **539,426** | **19,572,657** | **1,135,226** | **-140,461** | **994,765** |

## Tabl 3.4 – Newidiadau i Ddyraniadau MEG Cyfalaf Llywodraeth Cymru

| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs) | £000oedd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | CYFALAF CYFFREDINOL | | | TRAFODIADAU ARIANNOL | | |
| | Cyllideb Atodol 2023-24 Mehefin 2023 | Newidiadau | Cyllideb Atodol Gyntaf 2023-24 Cynlluniau Newydd Chwefror 2024 | Cyllideb Atodol 2023-24 Mehefin 2023 | Newidiadau | Cyllideb Atodol Gyntaf 2023-24 Cynlluniau Newydd Chwefror 2024 |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 478,048 | 40,895 | 518,943 | 0 | 0 | 0 |
| Cyllid a Llywodraeth Leol | 278,904 | 28,420 | 307,324 | 0 | 0 | 0 |
| Y Gymraeg ac Addysg | 357,300 | -24,040 | 333,260 | 14,886 | 4,443 | 19,329 |
| Newid Hinsawdd | 1,978,471 | -105,129 | 1,873,342 | 108,770 | 0 | 108,770 |
| Yr Economi | 81,811 | -22,612 | 59,199 | -2,553 | -13,075 | -15,628 |
| Materion Gwledig | 60,200 | -20,200 | 40,000 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 17,000 | -3,913 | 13,087 | -6 | 5,000 | 4,994 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 12,397 | 0 | 12,397 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y Dyraniad i MEGs Llywodraeth Cymru** | **3,264,131** | **-106,579** | **3,157,552** | **121,097** | **-3,632** | **117,465** |

**3.2** Darperir trosolwg o'r newidiadau i'r ffynonellau cyllid isod ac mae manylion dyraniadau o gronfeydd wrth gefn i'w gweld yn adran 6.

## Addasiadau i Ffynonellau Cyllid

### Adnoddau Cyllidol

**3.3** Cafwyd cynnydd net o £664,082k i linell sylfaen Adnoddau Cyllidol yn cynnwys:

- Tynnu £199,094k i lawr o Gronfa Wrth gefn Cymru;
- Cynnydd o symiau canlyniadol Barnett yn dod i gyfanswm o £363,639k ac yn cynnwys:
  - £132,737k mewn perthynas â chyllid a gyhoeddwyd yng Nghyllideb y DU ar gyfer yr Hydref 2023; a
  - £230,902k a ddaeth i law adeg Amcangyfrifon Atodol Llywodraeth y DU ym mis Chwefror 2024;
- Cynnydd o £18,585k o ganlyniad i newid o gyfalaf cyffredinol
- Gostyngiad o £43,902k oherwydd cario cyllid ymlaen i 2024-25 y tu allan i Gronfa Wrth Gefn Cymru;
- Trosglwyddiadau i mewn gwerth cyfanswm o £49,165k oddi wrth yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) yn cynnwys:
  - £48,268k mewn perthynas â Chronfa Pedair Gwlad y DU;
  - £597k mewn perthynas â Gwaed sydd wedi'i Heintio â HIV; a
  - £300k mewn perthynas â Thaliadau Iawndal Dros Dro Gwaed Heintiedig;
- Trosglwyddiad i mewn o £37,603k oddi wrth y Swyddfa Gartref mewn perthynas â'r balans sy'n ddyledus am 2023-24 ar gyfer y Gordal Iechyd Mewnfudo;
- Trosglwyddiadau gwerth cyfanswm o £16,724k oddi wrth yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (DLUHC) yn cynnwys:
  - £8,220k mewn perthynas â Chronfa Wcráin;
  - £7,806k mewn perthynas â Thariff Cyffredinol Ffoaduriaid Wcráin;
  - £600k mewn perthynas â Phorthladdoedd Rhydd;

    - £49k mewn perthynas â Rhaglen Groeso Hong Kong; a
    - £49k mewn perthynas â'r Gronfa Adsefydlu Plant a Phobl Ifanc;
- Trosglwyddiad o £9,735k i mewn oddi wrth Drysorlys EF ynghylch symiau'r blynyddoedd blaenorol ar gyfer y Gordal Iechyd Mewnfudo;
- Trosglwyddiad o £9,400k i mewn perthynas â newidiadau i IFRS16;
- Trosglwyddiadau i mewn gwerth cyfanswm o £4,013k oddi wrth y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cynnwys:
    - £3,738k mewn perthynas â Dysgu Troseddwyr; a
    - £275k mewn perthynas â'r Gronfa Canlyniadau a Rennir;
- Trosglwyddiad o £1,164k i mewn oddi wrth Drysorlys EF mewn perthynas â chyllid Ffiniau;
- Trosglwyddiad o £1,068k i mewn oddi wrth Drysorlys EF mewn perthynas â Gwasanaethau Cyngor Ariannol;
- Trosglwyddiad o £139k oddi wrth Drysorlys EF mewn perthynas ag ad-daliad rheoli arian parod;
- Trosglwyddiad o £125k i mewn oddi wrth Drysorlys EF mewn perthynas â Gwasanaethau Cyngor Ariannol; a
- Gostyngiad net o £2,470k yn yr addasiad i'r grant bloc.

## Adnoddau Anghyllidol

**3.4** Ers y Gyllideb Atodol Gyntaf cafwyd gostyngiad o swm net o £606,423k yn llinell sylfaen adnoddau anghyllidol, sy'n cynnwys cynnydd o £47,487k mewn dibrisiant cyffredinol a gostyngiad o £653,910k oherwydd newid mewn Benthyciadau i Fyfyrwyr. Digwyddodd y newidiadau adeg Amcangyfrifon Atodol Llywodraeth y DU ym mis Chwefror 2024

## Cyllido Datganoledig Cymru

**3.5** Mae incwm treth ddatganoledig wedi aros heb ei newid ers y gyllideb atodol gyntaf, sef £3,118,646k.

Mae'r swm y mae ei angen i ad-dalu prifswm benthyca wedi aros heb ei newid hefyd sef £4,454k.

## Cyfalaf Cyffredinol

**3.6** Cafwyd cynnydd o swm net o £25,293k yn y llinell sylfaen cyfalaf cyffredinol ers y Gyllideb Atodol Gyntaf, yn cynnwys:

- Cynnydd o symiau canlyniadol Barnett gwerth cyfanswm o £7,905k a ddaeth i law adeg Amcangyfrifon Atodol Llywodraeth y DU ym mis Chwefror 2024;
- Gostyngiad o £18,585k o ganlyniad i newid i adnoddau cyllidol;
- Gostyngiad o £40,265k mewn perthynas ag ildiad cyfalaf yn ymwneud ag IFRS16;
- Tynnu £47,230k i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru.
- Cynnydd net o £17,397k mewn ychwanegiadau nad ydynt yn Barnett mewn perthynas â chyllid ar gyfer Bargeinion Dinesig a Thwf;
- £8,255k oddi wrth Drysorlys EF mewn perthynas â chyllid Ffiniau;
- £3,400k gan yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg mewn perthynas â chynllun peilot y Gronfa Arloesi Rhanbarthol; a
- Throsglwyddiad o £44k allan i'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) mewn perthynas â Chronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol.

## Cyfalaf Trafodiadau Ariannol

**3.7** Bu gostyngiad net yn y llinell sylfaen trafodiadau ariannol o £31,920k ers y Gyllideb Atodol Gyntaf yn cynnwys:

- Tynnu £37,420k i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru; a
- Symiau canlyniadol negyddol net gwerth cyfanswm o £5,500k a ddidynnwyd adeg Amcangyfrifon Atodol Llywodraeth y DU ym mis Chwefror 2024

## Tabl 3.5 – Crynodeb o Gyfanswm Dyraniadau MEG Llywodraeth Cymru

| | CYFANSWM DYRANIADAU MEG 2023-24 yn ôl y GYLLIDEB ATODOL | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000oedd | | | | | | | | | |
| | Adnodd | | | Cyfalaf | | | Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) | | | CYFANSWM DYRANIAD MEG |
| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs) | Cyllidol | Anghyll-idol | Cyfanswm Adnoddau | Cyffred-inol | Trafod-iadau Ariannol | Cyfan-swm Cyfalaf | Adnodd | Cyfalaf | Cyfan-swm AME | |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 10,743,975 | 314,529 | **11,058,504** | 518,943 | 0 | **518,943** | 319,509 | 1,759 | **321,268** | **11,898,715** |
| Cyllid a Llywodraeth Leol | 4,852,679 | 603 | **4,853,282** | 307,324 | 0 | **307,324** | 906,453 | 0 | **906,453** | **6,067,059** |
| Y Gymraeg ac Addysg | 1,758,501 | 229,908 | **1,988,409** | 333,260 | 19,329 | **352,589** | -112,958 | 1,363,397 | **1,250,439** | **3,591,437** |
| Newid Hinsawdd | 991,008 | 402,412 | **1,393,420** | 1,873,342 | 108,770 | **1,982,112** | 395,902 | 0 | **395,902** | **3,771,434** |
| Yr Economi | 412,608 | 20,663 | **433,271** | 59,199 | -15,628 | **43,571** | 94,796 | 0 | **94,796** | **571,638** |
| Materion Gwledig | 359,417 | 7,817 | **367,234** | 40,000 | 0 | **40,000** | 0 | 0 | **0** | **407,234** |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 139,540 | 229 | **139,769** | 13,087 | 4,994 | **18,081** | 30,980 | 0 | **30,980** | **188,830** |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 314,929 | 18,604 | **333,533** | 12,397 | 0 | **12,397** | 3,200 | 0 | **3,200** | **349,130** |
| **CYFANSWM Y DYRANIADAU I MEGs LLYWODRAETH CYMRU** | **19,572,657** | **994,765** | **20,567,422** | **3,157,552** | **117,465** | **3,275,017** | **1,637,882** | **1,365,156** | **3,003,038** | **26,845,477** |

# 4. Trosglwyddiadau rhwng Portffolios y Gweinidogion

**4.1** Cafwyd trosglwyddiadau lluosog rhwng Portffolios y Gweinidogion yn y gyllideb atodol hon, yn dod i gyfanswm o £19,593k. Crynhoir effaith net y trosglwyddiadau ar bob un o'r MEGs yn y tabl isod.

| | **Adnoddau Cyllidol £'000** | | | **Cyfalaf £'000** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **I** | **O** | **Trosglwydd-iadau Net** | **I** | **O** | **Trosglwydd-iadau Net** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 0 | -13,313 | -13,313 | 377 | -346 | 31 |
| Cyllid a Llywodraeth Leol | 155 | 0 | 155 | 0 | -175 | -175 |
| Y Gymraeg ac Addysg | 6,370 | -1,022 | 5,348 | 0 | 0 | 0 |
| Newid Hinsawdd | 0 | 0 | 0 | 346 | -4,000 | -3,654 |
| Yr Economi | 1,042 | -515 | 527 | 4,000 | -202 | 3,798 |
| Materion Gwledig | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 7,303 | 0 | 7,303 | 0 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 0 | -20 | -20 | 0 | 0 | 0 |
| | **14,870** | **-14,870** | **0** | **4,723** | **-4,723** | **0** |

**4.2** Mae manylion y trosglwyddiadau dros £1m fel a ganlyn:

## Adnoddau Cyllidol

**4.3** Dau drosglwyddiad gwerth cyfanswm o £6,010k o'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i MEG y Gymraeg ac Addysg. Mae'r rhain yn cynnwys:

- £3,250k o BEL Cyllidebau eraill y GIG i'r BEL Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr i gefnogi myfyrwyr anfeddygol sy'n hanu o Gymru sy'n astudio yn Lloegr; a
- £2,760k o'r BEL Addysg a Hyfforddiant i'r BEL Gwariant Rhaglenni CCAUC mewn perthynas ag addysg feddygol yng Ngogledd Cymru.

**4.4** Trosglwyddo BEL Corff Llais y Dinesydd a £7,303k o'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r MEG Cyfiawnder Cymdeithasol.

Cyfalaf Cyffredinol

**4.5** Trosglwyddiad o £4,000k o'r BEL Effeithlonrwydd Adnoddau a'r Economi Gylchol o fewn y MEG Newid Hinsawdd i'r BEL Busnes a Datblygu Economaidd Rhanbarthol o fewn MEG yr Economi

## 5. Trosglwyddiadau o fewn Portffolios y Gweinidogion

**5.1** Yn ogystal â'r trosglwyddiadau rhwng Portffolios y Gweinidogion a nodir ym mhennod 4, mae nifer o drosglwyddiadau rhwng BELs o fewn yr un portffolios a gynhwysir yn Nhablau'r BELs cyhoeddedig. Nodir y MEGs lle mae'r trosglwyddiadau hyn yn uwch na £1m isod:

### Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**5.2** Cafwyd trosglwyddiadau adnoddau lluosog gwerth cyfanswm o £93,699k rhwng BELs o fewn MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn gryno, mae'r trosglwyddiadau hyn:

- yn alinio'r dyraniadau â'r Byrddau Iechyd Lleol yn gywir; ac
- yn alinio dyraniadau i ariannu ymrwymiadau penodol.

### Cyllid a Llywodraeth Leol

**5.3** Mae trosglwyddiad cyfalaf sengl o £6,100k wedi'i drosglwyddo o BEL Cyllid Cyfalaf Cyffredinol Llywodraeth Leol i'r BEL Cymorth Ariannol Brys o fewn y MEG Cyllid a Llywodraeth Leol.

### Y Gymraeg ac Addysg

**5.4** Cafwyd trosglwyddiadau adnoddau lluosog gwerth cyfanswm o £16,574k a throsglwyddiadau cyfalaf gwerth cyfanswm o £5,775k rhwng BELs o fewn MEG y Gymraeg ac Addysg fel rhan o ymarfer ailflaenoriaethu.

### Newid Hinsawdd

**5.5** Bu trosglwyddiadau adnoddau lluosog gwerth cyfanswm o £33,404k rhwng BELs yn y MEG Newid Hinsawdd fel rhan o'r ymarfer ailflaenoriaethu.

- Mae £31,400k wedi'i drosglwyddo i BEL Trafnidiaeth Cymru, gan gynnwys
  - £26,300k o BEL Cyfoeth Naturiol Cymru;
  - £2,100k o'r BEL Diogelwch Adeiladau;
  - £1,800k o'r BEL Hedfanaeth; a
  - £1,150k o BEL y Gronfa Rhyddhau Tir.

- Mae £1,953k wedi'i drosglwyddo i'r BEL Seilwaith Gwyrdd newydd.

Cafwyd trosglwyddiadau lluosog gwerth cyfanswm o £22,499k rhwng BELs o fewn y MEG Newid Hinsawdd.

- Mae £16,717k wedi'i drosglwyddo i'r BEL Diogelwch ar y Ffyrdd oherwydd ailflaenoriaethu'r gyllideb, sy'n cynnwys y canlynol;
  - £10,000k o'r BEL Cymorth i Fysiau;
  - £3,365k o'r BEL Blaenoriaethau Trafnidiaeth Lleol; a
  - £3,352k o'r BEL Teithio Cynaliadwy a Llesol.
- Mae £4,028k wedi'i drosglwyddo o BEL Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru i BEL y Rhaglen Tlodi Tanwydd i ddarparu cymorth ychwanegol i Gynllun Nyth y Rhaglen Cartrefi Clyd.
- Mae £1,754k wedi'i drosglwyddo o BEL Trafnidiaeth Cymru i BEL Cyfoeth Naturiol Cymru.

## Materion Gwledig

**5.6** Mae trosglwyddiad adnodd sengl o £13,000k wedi'i drosglwyddo o'r BEL Cynllun Buddsoddi Gwledig i'r BEL Cynllun Datblygu Gwledig 2014-20 o fewn y MEG Materion Gwledig.

## Cyfiawnder Cymdeithasol

**5.7** Bu trosglwyddiadau adnoddau lluosog gwerth cyfanswm o £3,127k rhwng BELs yn y MEG Cyfiawnder Cymdeithasol fel rhan o ymarfer ailflaenoriaethu.

- Mae £1,100k wedi'i drosglwyddo o'r BEL Cynhwysiant Ariannol i'r BEL Incwm Sylfaenol; ac
- Mae £1,470k wedi'i drosglwyddo o'r BEL Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol a'i rannu rhwng nifer o BELs ar draws y MEG.

## 6. Newidiadau i Gronfeydd Wrth Gefn

**6.1** Mae'r gyllideb yn cysoni nifer o ddyraniadau i gronfeydd wrth gefn ac oddi wrthynt. Mae rhestr gyflawn i'w chael yn nhabl 6.1.

### Dyraniadau o Gronfeydd Adnoddau Cyllidol Wrth Gefn

**6.2** Mae dyraniadau gwerth cyfanswm o £787,281k wedi'u gwneud o gronfeydd adnoddau cyllidol wrth gefn yn y gyllideb atodol hon. Mae'r cyfanswm ar gyfer pob MEG a manylion y trosglwyddiadau sylweddol wedi'u hamlinellu isod:

- Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - £676,178k:
  - £675,006k i BEL Dyraniadau Craidd y GIG. £5790,400k o ganlyniad i'r ymarfer arbedion yn ystod y flwyddyn, £48,268k mewn perthynas â'r trosglwyddiad cyllidebol a ddaeth i law oddi wrth DHSC ar gyfer Cronfa Pedair Gwlad y DU a £47,338k mewn perthynas â'r Gordal Iechyd Mewnfudo.
- Y Gymraeg ac Addysg - £11,138k:
  - £7,400k i'r BEL Bwyd a Maeth mewn Ysgolion mewn perthynas â'r ddarpariaeth gwyliau prydau ysgol am ddim; a
  - £3,738k i'r BEL Dysgu ar gyfer Troseddwyr mewn perthynas â'r trosglwyddiad cyllidebol a ddaeth i law oddi wrth y Weinyddiaeth Gyfiawnder.
- Newid Hinsawdd - £91,403k;
  - I gyd i BEL Trafnidiaeth Cymru.
- Yr Economi - £8,562k:
  - £7,100k i'r BEL Rheoli Ffiniau.

### Trosglwyddiadau i Gronfeydd Adnoddau Cyllidol Wrth Gefn

**6.3** Mae trosglwyddiadau gwerth cyfanswm o £247,855k wedi'u gwneud i gronfeydd adnoddau cyllidol wrth gefn yn y gyllideb atodol hon. Mae'r

cyfanswm ar gyfer pob MEG a manylion y trosglwyddiadau sylweddol wedi'u hamlinellu isod.

- Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - £48,075k
  - £47,362k o'r BEL Ymchwil a Datblygu mewn perthynas â newid o adnoddau i gyfalaf mewn cysylltiad ag ailddosbarthu cyllid Ymchwil a Datblygu.
- Cyllid a Llywodraeth Leol - £47,692k
  - £28,494k o BELs lluosog yn ymwneud â'r ymarfer arbedion yn ystod y flwyddyn
  - £19,198k o BELs lluosog mewn perthynas â newid o adnoddau i gyfalaf.
- Y Gymraeg ac Addysg - £74,728k o BELs lluosog yn ymwneud â'r ymarfer arbedion yn ystod y flwyddyn.
- Newid Hinsawdd - £33,353k o BELs lluosog yn ymwneud â'r ymarfer arbedion yn ystod y flwyddyn.
- Yr Economi - £36,610k, y mae £36,562k ohono yn ymwneud â'r ymarfer arbedion yn ystod y flwyddyn.
- Materion Gwledig - £17,250k o BELs lluosog yn ymwneud â'r ymarfer arbedion yn ystod y flwyddyn.
- Cyfiawnder Cymdeithasol - £7,000k o BELs lluosog yn ymwneud â'r ymarfer arbedion yn ystod y flwyddyn.
- Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu - £16,500k o BELs lluosog yn ymwneud â'r ymarfer arbedion yn ystod y flwyddyn.

## Dyraniadau o Gronfeydd Adnoddau Anghyllidol Wrth Gefn

**6.4** Mae trosglwyddiadau gwerth cyfanswm o £136,619k wedi'u gwneud o gronfeydd adnoddau anghyllidol wrth gefn yn y gyllideb atodol hon. Y mwyaf o'r rhain yw dyraniad o £71,309k i'r MEG Newid Hinsawdd mewn perthynas â'r rhwydwaith ffyrdd.

## Trosglwyddiadau i Gronfeydd Adnoddau Anghyllidol Wrth Gefn

**6.5** Mae trosglwyddiadau gwerth cyfanswm o £277,080k wedi'u gwneud i gronfeydd adnoddau anghyllidol wrth gefn yn y gyllideb atodol hon. Roedd £261,929k o'r rhain yn dod o'r BEL Ddarpariaeth Cyllideb Adnoddau Benthyciadau i Fyfyrwyr o fewn MEG y Gymraeg ac Addysg mewn perthynas â newid yn y cyfrifiad o ddyraniadau Benthyciadau i Fyfyrwyr gan Drysorlys EF.

## Dyraniadau o Gronfeydd Cyfalaf Cyffredinol Wrth Gefn

**6.6** Mae dyraniadau gwerth cyfanswm o £195,714k wedi'u gwneud o gronfeydd cyfalaf cyffredinol yn y gyllideb atodol hon. Mae'r cyfanswm ar gyfer pob MEG a manylion y trosglwyddiadau sylweddol wedi'u hamlinellu isod.

- Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - £57,362k
  - £47,362k i'r BEL Ymchwil a Datblygu mewn perthynas â newid o adnoddau i gyfalaf mewn cysylltiad ag ailddosbarthu cyllid Ymchwil a Datblygu.
  - £10,000k i BEL Dyraniadau Craidd y GIG i ariannu offer y GIG a cheisiadau digidol.
- Cyllid a Llywodraeth Leol - £54,540k
  - £35,342k i'r BEL Bargeinion Dinesig a Thwf mewn perthynas â chyllid a ddaeth i law oddi wrth Drysorlys EF; a
  - £19,198k i BELs lluosog mewn perthynas â newid o adnoddau i gyfalaf.
- Y Gymraeg ac Addysg - £15,960k
  - £12,560k i'r BEL Seilwaith Addysg,
    - £10,000k mewn perthynas â chynnal a chadw; a
    - £2,560k mewn perthynas â Choncrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth (RAAC);
  - £3,400k i BEL Gwariant Rhaglenni CCAUC mewn perthynas â throsglwyddiad cyllidebol a ddaeth i law oddi wrth yr Adran

Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg (DSIT) ar gyfer y Gronfa Arloesi Ranbarthol.

- Newid Hinsawdd - £58,324k
  - £34,000k i BEL Trafnidiaeth Cymru;
  - £15,000k i BEL Gweithrediadau'r Rhwydwaith;
  - £5,000k i'r BEL Seilwaith Gwyrdd a
  - £2,000k i BEL Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Yr Economi - £10,595k
  - y trosglwyddwyd £8,255k ohono i'r BEL Rheoli Ffiniau mewn perthynas â chyllid a ddaeth i law oddi wrth Drysorlys EF;
  - y dyrannwyd £1,740k ohono i'r BEL Seilwaith Eiddo.
- Cyfiawnder Cymdeithasol - £687k.

### Dyraniadau i Gronfeydd Cyfalaf Cyffredinol Wrth Gefn

**6.7** Mae dyraniadau gwerth cyfanswm o £302,293k wedi'u gwneud i gronfeydd cyfalaf cyffredinol yn y gyllideb atodol hon. Mae'r cyfanswm ar gyfer pob MEG a manylion y trosglwyddiadau sylweddol wedi'u hamlinellu isod.

- Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - £16,498k, £15,000k o BEL Dyraniadau Craidd y GIG mewn perthynas â thanwariant.
- Cyllid a Llywodraeth Leol - £25,945k o'r BEL Bargeinion Dinesig a Thwf mewn perthynas ag ailbroffilio cyllid ac arbedion a nodwyd fel rhan o'r ymarfer yn ystod y flwyddyn.
- Y Gymraeg ac Addysg - £40,000k o'r BEL Seilwaith Addysg yn ymwneud â'r ymarfer arbedion yn ystod y flwyddyn.
- Newid Hinsawdd - £158,045k, y daeth £131,001k ohono o BELs lluosog yn ymwneud â'r ymarfer arbedion yn ystod y flwyddyn.
- Yr Economi - £37,005k
  - y trosglwyddwyd £34,500k ohono o'r BEL Gweithrediadau Seilwaith TGCh yn ymwneud ag adfachiad Band Eang Cyflym Iawn; a

  - £2,500k o'r BEL Busnes a Datblygu Economaidd Rhanbarthol BEL yn ymwneud â'r ymarfer arbedion yn ystod y flwyddyn.
- Materion Gwledig - £20,200k o'r BEL Cynlluniau Buddsoddi Gwledig yn ymwneud â'r ymarfer arbedion yn ystod y flwyddyn.
- Cyfiawnder Cymdeithasol - £4,600k o BELs lluosog yn ymwneud â'r ymarfer arbedion yn ystod y flwyddyn.

## Dyraniadau o Gronfeydd Cyfalaf Trafodiadau Ariannol Wrth Gefn

**6.8** Cafwyd trosglwyddiadau net gwerth cyfanswm o £10,193k o'r cronfeydd cyfalaf trafodiadau wrth gefn yn y gyllideb atodol.

- £5,193k i'r BEL Seilwaith Addysg o fewn MEG y Gymraeg ac Addysg mewn perthynas â chyllid ar gyfer Coleg Pen-y-bont ar Ogwr; a
- £5,000k i'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedau yn yr MEG Cyfiawnder Cymdeithasol mewn perthynas â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

## Dyraniadau i Gronfeydd Cyfalaf Trafodiadau Ariannol Wrth Gefn

**6.9** Bu pedwar trosglwyddiad yn ôl i gronfeydd cyfalaf trafodiadau ariannol yn y gyllideb atodol hon gwerth cyfanswm o £13,075k.

- £10,000k o'r BEL Cronfeydd Cyllid Busnes o fewn MEG yr Economi yn ymwneud â chyllid nad oes ei angen bellach; a
- £3,825k yn ymwneud ag ad-dalu benthyciadau y daeth £750k ohono o MEG y Gymraeg ac Addysg a £3.075k o MEG yr Economi.

## Newidiadau yn y Gyllideb

**6.10** O fewn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyllid a Llywodraeth Leol bu newidiadau lluosog rhwng yr adnoddau cyllidol a'r cronfeydd cyfalaf cyffredinol. Mae'r effaith net ar y ddwy gronfa wrth gefn yn sero ond darperir manylion llawn y symudiadau yn nhabl 6.1 isod.

## Trosglwyddiadau Eraill gyda Chronfeydd Wrth Gefn

**6.11** Cafwyd trosglwyddiadau eraill gyda chronfeydd canolog nad ydynt yn effeithio ar y MEGs. Mae canlyniad net y rhain fel a ganlyn:

- Cynnydd net o £34k mewn cronfeydd anghyllidol wrth gefn; a
- Gostyngiad net o £94k mewn cronfeydd cyfalaf cyffredinol wrth gefn.

Mae tabl 6.1 isod yn adlewyrchu'r holl symudiadau ar gronfeydd wrth gefn:

